Polisi Coleg Penybont
Bridgend College Policy

Coleg Penybont
Bridgend College

Enw'r Polisi: Polisi a Gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad

Cod y Ddogfen (os yn berthnasol)

Adran: Cwricwlwm ac Ansawdd
Awdur y Ddogfen: Claire Flay-Petty
Teitl Swydd: Arweinydd Gwella Ansawdd
Dyddiad Cymeradwyo: Rhagfyr 2020
Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2022

Polisi Coleg Penybont
Bridgend College Policy

Coleg Penybont
Bridgend College

Rhestr Wirio'r Polisi:

Gofynion ar gyfer Llunio'r Polisi	Ie / Na / amherth.	Gwybodaeth Atodol
Ydy'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	**Ie**	
Ydy'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	**Ie**	
Ydy'r Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data wedi cael ei ystyried ynghylch y polisi hwn? Os ydyw, cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth i gwblhau Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data.	**amherth.**	
Ydy'r adolygiad wedi cymryd y Canllawiau/Deddfwriaeth ddiweddaraf i ystyriaeth?	**Ie**	Ystyriwyd Canllawiau'r Corff Dyfarnu – credwyd y polisi hwn yn unol â'r canllawiau hynny
Oes angen cyngor cyfreithiol? Os oes, sicrhewch eich bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau'r cyngor cyfreithiol priodol cyn parhau.	**Na**	
Oes angen hyfforddi staff? Os oes, sicrhewch fod yr hyfforddiant angenrheidiol wedi cael ei drefnu drwy'r Cynghorydd Dysgu a Datblygu.	**Na**	
Oes unrhyw faterion sy'n gysylltiedig ag Adnoddau Dynol sydd angen eu hystyried? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr AD i drafod hyn ymhellach.	**Na**	
Oes unrhyw faterion ariannol cysylltiedig? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr Cyllid i drafod hyn ymhellach.	**Na**	

1. Pwrpas ac Amcanion:

Mae Coleg Penybont yn cydnabod y gall datblygiad sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd ddigwydd y tu fewn ac y tu fas i'r amgylchedd dysgu ac addysgu traddodiadol. Mae'r Polisi a Gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad yn manylu'r broses ar gyfer:

- asesu sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd a gyflawnwyd eisoes gan ddysgwyr yn ffurfiol, yn erbyn deilliannau dysgu a/neu feini prawf asesu uned(au) rhaglen astudio.
- galluogi consesiwn neu esemptiad rhag rhagofynion penodol neu ofynion cyflawniad rhaglen astudio i ddysgwyr sydd eisoes yn meddu ar gyflawniad ardystiedig perthnasol.

Mae'r Polisi a Gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad ar gael i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd ei ddefnyddio fel rhan o fframwaith Cwricwlwm ac Ansawdd y Coleg. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i Addysg Bellach a rhaglenni Addysg Uwch nad ydynt yn cael eu darparu fel rhan o drefniant masnachfreinio â phrifysgol bartner. Ar gyfer rhaglenni Addysg Uwch a gaiff eu darparu fel rhan o drefniant masnachfreinio â phrifysgol bartner, cyfeiriwch at reoliadau a phrosesau'r brifysgol berthnasol.

Rhaid darllen a gweithredu'r polisi hwn yn unol â pholisïau cysylltiedig y Sefydliadau Dyfarnu a Chyrff Rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys Cymwysterau Cymru a'r Cyd-gyngor Cymwysterau.

2. Manylion y Polisi:

2.1 Trosolwg

Pwrpas y polisi hwn yw:

- diffinio Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad
- manylu proses a gweithdrefn Coleg Penybont ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad
- darparu canllawiau eglur a chyson i'r rheini sy'n ymwneud ag ymholiadau, ceisiadau, asesu a dyfarnu Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad
- bodloni'r gofynion a osodwyd gan Sefydliadau Dyfarnu a Chyrff Rheoleiddio.

2.2 Diffiniadau

Cydnabod Dysgu Blaenorol: proses asesu sy'n mesur tystiolaeth o gyflawniad, sgiliau neu gymhwysedd blaenorol dysgwr yn erbyn deilliannau dysgu a/neu feini prawf asesu uned(au), heb fod angen i'r dysgwr ymgymryd â'r dysgu ac addysgu ffurfiol cysylltiedig. Gallai hyn gynnwys unrhyw dysgu a gafwyd drwy fywyd gartref a theulu, addysg a hyfforddiant blaenorol, gweithgareddau gwaith, neu waith cymunedol/gwirfoddol. At ddibenion y polisi hwn, defnyddir Cydnabod Dysgu Blaenorol i amgynnwys y termau canlynol, a gaiff eu defnyddio'n gyfnewidiol yn aml:

- Achredu Dysgu Blaenorol
- Achredu Dysgu Profiadol Blaenorol
- Achredu Cyflawniad Blaenorol
- Achredu Dysgu Ardystiedig Blaenorol

Esemptiad: proses sy'n galluogi dysgwr i hawlio consesiwn neu esemptiad rhag rhagofynion penodol neu ofynion cyflawniad rhaglen astudio, gan ddefnyddio tystiolaeth o gyflawniad ardystiedig yr ystyrir ei fod yn gyfwerth. Gallai hyn gynnwys achosion pan fydd dysgwr wedi cyflawni cymhwyster rheoleiddiedig y cydnabyddir ei fod yn gyfwerth neu'n debyg i elfennau penodol o'r cymhwyster, neu pan fydd dysgwr yn meddu ar dystysgrif neu gymhwyster y'i dyfarnwyd ar sail cyflawni deilliannau dysgu/meini prawf asesu yr ystyrir eu bod yn gyfwerth i'r uned(au)/cymhwyster dan sylw.

Bydd y broses Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad yn galluogi'r dysgwr i:

- profi bod deilliannau dysgu/meini prawf asesu uned(au) rhaglen astudio ffurfiol eisoes wedi cael eu bodloni.
- (ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol yn unig) ymgymryd â'r un asesiadau â'r rheini a ddilynir ar y rhaglen dysgu, addysgu ac asesu ffurfiol gan arwain at gyflawni'r uned neu'r cymhwyster dymunol, heb orfod mynychu'r sesiynau dysgu cysylltiedig, lle y nodir gwn y Sefydliad Dyfarnu perthnasol. Yn y senario hwn, rhaid darparu datganiad o ddilysrwydd wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y dysgwr a'r aelod staff sy'n arwain y broses Cydnabod Dysgu Blaenorol, a dylai'r aelod staff perthnasol arsylwi'r dysgwr yn ymgymryd â'r asesiad.
- (ar gyfer Esemptiad yn unig) cael mynediad eithriadol i raglen ddysgu. Er enghraifft, pan fydd dysgwr yn dymuno ymuno â rhaglen ddiploma estynedig ar ôl ennill y cymhwyster diploma, sy'n ffurfio hanner gyntaf y diploma estynedig, mewn sefydliad arall neu drwy Sefydliad Dyfarnu gwahanol. Os caniateir esemptiad, ni fydd angen unrhyw astudio neu asesu ychwanegol ar gyfer yr unedau esempt.

Mae rhai Sefydliadau Dyfarnu'n nodi'n fanwl na eillir ystyried dysgu ardystiedig blaenorol ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol, a gallant fynnu bod canolfannau/dysgwyr yn gwneud cais am esemptiad rhag rhai o ofynion cyflawniad y cymhwyster yn lle. Bydd gan Sefydliadau Dyfarnu bolisïau a gweithdrefnau penodol ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad y dylid eu darllen a chydymffurfio â nhw ynghyd â'r polisi hwn.

2.3 Egwyddorion a chyfyngiadau Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad

- Er mwyn gwneud cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad, mae'n rhaid i ddysgwr hel portffolio o dystiolaeth at ei gilydd i ddangos sut mae'r sgiliau, gwybodaeth a/neu gymhwysedd a gyflawnwyd yn flaenorol yn bodloni deilliannau dysgu/meini prawf asesu'r uned(au)/rhaglen astudio y gwneir y cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad ar eu cyfer. Bydd asesydd yn adolygu a yw'r dystiolaeth yn ddigonol i brofi bod y dysgwr wedi bodloni'r gofynion asesu ar gyfer y cymhwyster y mae'r dysgwr. Rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir gan y dysgwyr fod yn:
    - Ddilys – rhaid i'r dystiolaeth brofi fod gofynion y deilliannau dysgu/meini prawf asesu wedi cael eu bodloni.
    - Cyfredol – rhaid i'r dystiolaeth fodloni'r gofynion a/neu arferion diweddaraf yn y maes perthnasol, a rhaid bod hyn wedi cael ei gyflawni o fewn cyfnod priodol o amser.
    - Dibynadwy – dylai'r dystiolaeth a ddarperir fod o'r fath fel y byddai asesydd yn dod i'r un penderfyniad asesu petai'r asesiad yn cael ei ail-wneud.
    - Gwirioneddol – rhaid mai gwaith y dysgwr yw'r dystiolaeth a ystyrir
    - Digonol – rhaid bod digon o dystiolaeth i fodloni'r deilliannau dysgu/meini prawf asesu a ystyrir yn llwyr.
- Os yw'r dystiolaeth a ddarperir gan y dysgwr yn annigonol, rhaid cwblhau dysgu ac asesu priodol, megis asesiad o gymhwysedd, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddeilliannau dysgu neu feini prawf asesu dyledus yn cael eu hamlygu.
- Rhaid i'r dulliau asesu a ddefnyddir ar gyfer y dystiolaeth fod yn addas i'r pwrpas a bod mor drwyadl â'r dulliau asesu y byddai fel arfer yn cael eu defnyddio ar gyfer y rhaglen astudio.

- Rhaid cwblhau unrhyw broses ar gyfer hysbysu/gwneud cais i'r Sefydliad Dyfarnu, neu i'r Arholwr Allanol cysylltiedig, erbyn y dyddiad cau a osodir gan y Sefydliad Dyfarnu.

- Mae'n bosibl na fydd Cydnabod Dysgu Blaenorol yn briodol os yw cymwysterau'n cynnwys Trwydded i Weithredu, gofyniad Iechyd a Diogelwch, lleoliad gwaith, neu os yw'r cymhwyster yn arwain at broffesiwn rheoleiddedig.

- Ni ellir defnyddio Cydnabod Dysgu Blaenorol ar gyfer asesiadau allanol, arholiadau gosodedig, neu unrhyw elfen o ofynion asesu gorfodol y cymhwyster.

- Yn amodol ar ganllawiau'r Sefydliad Dyfarnu, nid yw Esemptiadau'n denu credyd gan fydd y sgiliau, gwybodaeth a/neu gymwyseddau a ddisgrifiwyd yn yr uned eisoes wedi cael eu cydnabod a/neu eu hardystio.

2.4 Y Weithdrefn ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad

CAM 1: DARPARU GWYBODAETH A THRAFODAETH RAGARWEINIOL

- Rhoddir gwybod i ddysgwyr am y Polisi a Gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad trwy brosbectysau, gwybodaeth ar y we, porth y dysgwyr, deunyddiau cofrestru a chynefino, a/neu diwtorialau.

- Mae'r dysgwr yn gyfrifol am roi gwybod i'w ddarlithydd/tiwtor yr hoffent wneud cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad. Os yw dysgwr yn mynegi diddordeb mewn gwneud cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad, rhaid cael trafodaeth gychwynnol yn cwmpasu'r elfennau canlynol:

    - Y broses o wneud cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad, yn cynnwys y cymorth a'r arweiniad sydd ar gael, a'r broses o hel portffolio o dystiolaeth at ei gilydd.
    - Gofynion neu gyfyngiadau'r Sefydliad Dyfarnu, yn cynnwys dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad, unrhyw gyfyngiadau ar y gyfran o'r cymhwyster y gellir cyflawni drwy Gydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad, ac unrhyw derfyn uchaf y rhoddir ar raddau'r asesiadau/unedau/cymwysterau y gweithredir y polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad ar eu cyfer.

- Faint o amser fydd y broses yn cymryd, ac unrhyw gostau cysylltiedig.
- Y broses ar gyfer apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaed ynghylch Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad.

- Adeg yma, rhaid i'r darlithydd/tiwtor wirio bod y dystiolaeth sydd angen i'r dysgwr ei darparu ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad wedi cael ei chyflawni cyn dechrau'r rhaglen astudio, a bod y dystiolaeth yn bodloni'r gofynion o ran bod yn ddilys, yn gyfredol, yn ddibynadwy, yn wirioneddol, ac yn ddigonol, fel y nodwyd yn adran 2.3 uchod.

- Pan fydd dysgwr yn dymuno gwneud cais am Esemptiad ar sail dysgu neu gyflawniad ardystiedig blaenorol, rhaid i'r darlithydd/tiwtor fod yn fodlon bod y cymhwyster y cyflawnodd y dysgwr yn flaenorol yn cwmpasu deilliannau dysgu/meini prawf asesu sy'n sylweddol debyg, bod y cymhwyster o safon gyfwerth neu uwch, a bod y dulliau asesu yn ddigon trylwyr.

- Ar ôl i ddysgwr gadarnhau yr hoffai barhau â'r broses Cydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad, rhaid i'r darlithydd/tiwtor perthnasol lenwi a chyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad (https://forms.gle/fctZRshA36yoK7M67). Rhaid cyflwyno'r ffurflen hon **cyn** gwneud cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol i'r Sefydliad Dyfarnu. Rhoddir y ffurflen hon i'r Rheolwr Cwricwlwm perthnasol a'r Swyddfa Cwricwlwm ac Ansawdd.

- Ar ôl derbyn y Ffurflen Hysbysu Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad, bydd y Rheolwr Cwricwlwm yn penodi aelod staff sy'n gymwys mewn, ac sydd â phrofiad blaenorol o, Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad i arwain y broses.

- Rhaid gwneud pob cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol a/neu Esemptiad ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y caiff yr uned ei chwblhau ynddi, oni bai bod y Sefydliad Dyfarnu'n nodi fel arall.

CAM 2: HEL PORTFFOLIO O DYSTIOLAETH AT EI GILYDD

- Er mwyn hawlio credyd o dan y broses Cydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad, rhaid i'r dysgwr ddarparu portffolio o dystiolaeth wedi'i fapio yn erbyn deilliannau dysgu/meini prawf asesu pob un uned y gwneir cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad ar eu cyfer. Rhaid i hyn gynnwys unrhyw ymarferion mapio sy'n ofynnol gan y

Sefydliad Dyfarnu. Gall yr aelod staff sy'n arwain y broses ystyried llunio cynllun asesu fel canllaw i'r dysgwr wrth hel y portffolio o dystiolaeth at ei gilydd.

- Pan fydd dysgu blaenorol yn brofiadol ei natur, rhaid i'r portffolio ddangos tystiolaeth o'r dysgu, sgiliau a/neu gymhwysedd blaenorol a gyflawnwyd. Gallai tystiolaeth o ddysgu profiadol gynnwys, ond heb fod yn gyfyngol i: bywyd yn y cartref/teuluol, addysg a hyfforddiant blaenorol, gweithgareddau yn y gwaith, a gwaith cymunedol/gwirfoddol.

- Pa fydd dysgu blaenorol yn cael ei ardystio, rhaid i'r portffolio gynnwys copi o'r dystysgrif wreiddiol. Rhaid bod y copi hwn wedi cael ei lofnodi a'i ddyddio gan yr aelod staff sy'n arwain y broses Cydnabod Dysgu Blaenorol i gadarnhau ei fod wedi gweld y ddogfen wreiddiol, a rhaid storio copi electronig o'r dystysgrif yn ganolog.

- Rhaid i'r portffolio o dystiolaeth gynnwys datganiad o ddilysrwydd wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y dysgwr a'r aelod staff sy'n arwain y broses Cydnabod Dysgu Blaenorol.

CAM 3: ASESU'R PORTFFOLIO

- Rhaid asesu'r portffolio o dystiolaeth yn erbyn deilliannau dysgu/meini prawf asesu'r uned(au) y gwneir cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol/Esemptiad ar eu cyfer. Ar gyfer Esemptiad, rhaid i'r asesydd sicrhau bod pob cydran o'r cymhwyster ardystiedig yn ddigonol er mwyn bodloni gofynion pob un o ddeilliannau dysgu/meini prawf asesu'r uned(au) y gwneir cais am Gydnabod Dysgu Blaenorol/Esemptiad ar eu cyfer.

- Rhaid i'r asesydd fod yn fodlon bod tystiolaeth y dysgwr yn bodloni'r holl ddeilliannau dysgu/meini prawf asesu. Os canfyddir bylchau yn y dystiolaeth a ddarparwyd, rhaid defnyddio dulliau asesu pellach er mwyn darparu digon o dystiolaeth i allu rhoi credyd ar gyfer yr uned gyfan.

- Rhaid i'r dystiolaeth a gesglir drwy'r broses Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad gael ei hasesu a'i dilysu gan ddefnyddio'r yr un gweithdrefnau sicrhau ansawdd a gaiff eu defnyddio ar gyfer unrhyw ddulliau asesu mewnol eraill, a rhaid cadw cofnodion o'r asesiadau yn y ffordd arferol.

- Rhaid trafod canlyniad y portffolio, a'r penderfyniad i Gydnabod Dysgu Blaenorol neu roi Esemptiad neu beidio, yn cynnwys unrhyw gymorth ac arweiniad ynghylch y dewisiadau dysgu dilynol, â'r dysgwr.

- Gall ddysgwr apelio yn erbyn canlyniad ei gais am Gydnabod Dysgu Blaenorol neu Eseptiad drwy ddilyn Polisi a Gweithdrefn Apelio'r Coleg.

CAM 4: SICRHAU ANSAWDD A HAWLIADAU

- Rhaid gwirio unrhyw benderfyniad i roi credyd o ganlyniad i'r weithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad yn fewnol, a rhaid cynnwys hyn yn y sampl ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol.

- Dylid rhoi gwybod i unrhyw unigolyn a benodir gan y Sefydliad Dyfarnu i wneud gwiriadau sicrhau ansawdd allanol, er enghraifft Gwirydd Safonau neu Arholwr Allanol, am unrhyw geisiadau am Gydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad fel rhan o unrhyw weithgarwch monitro a gaiff ei gyflawni. Gall Sefydliadau Dyfarnu hefyd fynnu bod unrhyw benderfyniadau asesu a wneir o ganlyniad i'r weithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad yn cael ei samplu fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd allanol.

- Rhaid rhoi gwybod i'r Rheolwr Cwricwlwm a'r Swyddfa Cwricwlwm ac Ansawdd am y penderfyniad asesu cyn y gwneir unrhyw hawliad am gredyd.

- Dylai unrhyw benderfyniad i roi credyd o dan y broses Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad gael ei gofnodi, a lle bo hynny'n briodol ei gadarnhau, yn y fforwm cwricwlwm perthnasol, gan gynnwys Cyfarfodydd Tîm y Cwrs a Byrddau Asesu.

- Ar ôl cwblhau a chadarnhau gwiriad mewnol ac allanol y penderfyniad asesu ynghylch Cydnabod Dysgu Blaenorol neu Esemptiad, dylid gwneud hawliadau am gredyd yn y modd a nodwyd gan y Sefydliad Dyfarnu perthnasol.

- Rhaid storio'r holl dystiolaeth sy'n ymwneud â Chydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad, gan gynnwys portffolio'r dysgwr, cofnodion o unrhyw ohebiaeth â'r Sefydliadau Dyfarnu neu eu cynrychiolwyr, ceisiadau am a chadarnhad o Gydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad, ac unrhyw weithgareddau mapio eraill yn ganolog, a rhaid eu bod ar gael i'r tîm cwrs perthnasol, y Rheolwr Cwricwlwm a'r Swyddfa Cwricwlwm ac Ansawdd. Rhaid i'r cofnodion hyn fod ar gael i'w gwirio yn ôl gofyn y Sefydliad Dyfarnu.

3. **Cyfrifoldebau (os yn berthnasol):**

Bydd darlithwyr yn:

- Ymgyfarwyddo eu hunain â manylion y polisi hwn, a rhoi'r polisi ar waith yn yr amgylchiadau priodol, gan gyfeirio'n benodol ar y weithdrefn a nodwyd yn adran 2.4

Bydd Rheolwyr Cwricwlwm yn:

- Ymgyfarwyddo eu hunain â manylion y polisi hwn, a rhoi'r polisi ar waith yn yr amgylchiadau priodol.
- Penodi aelod staff sy'n gymwys mewn, ac sydd â phrofiad blaenorol o, Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad i arwain y broses.
- Sicrhau bod unrhyw geisiadau llwyddiannus ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad yn cael eu cofnodi a'u hadrodd yn y modd a nodwyd uchod.

Bydd y Swyddfa Cwricwlwm ac Ansawdd yn:

- Cadw cofnod canolog o'r holl geisiadau am Gydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad a gaiff eu cyflwyno drwy'r Ffurflen Hysbysu Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad (https://forms.gle/fctZRshA36yoK7M67)

4. **Adolygiad y Ddogfen**

FFURFLEN ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Enw'r Polisi / Gweithdrefn	Polisi a Gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad						
Perchennog y Polisi	Swyddfa Cwricwlwm ac Ansawdd / Claire Flay-Petty						
Nod(au) a Phwrpas y Polisi	Manylu'r polisi a'r weithdrefn ar gyfer asesu sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd a gyflawnwyd eisoes gan ddysgwyr yn ffurfiol, yn erbyn deilliannau dysgu a/neu feini prawf asesu uned(au) rhaglen astudio, a galluogi consesiwn neu esemptiad rhag rhagofynion penodol neu ofynion cyflawniad rhaglen astudio i ddysgwyr sydd eisoes yn meddu ar gyflawniad ardystiedig perthnasol.						
I bwy Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?	**Dysgwyr**	☑	**Staff**	☑	**Y Cyhoedd**		

Nodwedd gydraddoldeb	Effaith gadarn-haol	Effaith niwtral	Effaith negyddol	Rheswm/sylw
Oedran	x			Bydd dysgwyr hŷn yn fwy tebygol o fod wedi datblygu sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd, o fewn neu y tu fas i amgylchedd dysgu ac addysgu traddodiadol, y gellir eu hystyried ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad.
Anabledd		x		
Ailbennu rhywedd		x		
Priodas a phartneriaeth sifil		x		
Beichiogrwydd a mamolaeth		x		
Hil		x		
Crefydd neu		x		

gred				
Rhyw		x		
Cyfeiriadedd rhywiol		x		

Dyddiad y cwblhawyd: 13.11.2020

Llofnodwyd gan y Rheolwr a gwblhaodd yr asesiad:

Asesiad Effaith ar y Gymraeg

Enw'r Polisi / Gweithdrefn	Polisi a Gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Esemptiad					
Perchennog y Polisi	Swyddfa Cwricwlwm ac Ansawdd / Claire Flay-Petty					
Nod(au) a Phwrpas y Polisi	Manylu'r polisi a'r weithdrefn ar gyfer asesu sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd a gyflawnwyd eisoes gan ddysgwyr yn ffurfiol, yn erbyn deilliannau dysgu a/neu feini prawf asesu uned(au) rhaglen astudio, a galluogi consesiwn neu esemptiad rhag rhagofynion penodol neu ofynion cyflawniad rhaglen astudio i ddysgwyr sydd eisoes yn meddu ar gyflawniad ardystiedig perthnasol.					
I bwy Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?	**Dysgwyr**	☑	**Staff**	☑	**Y Cyhoedd**	

Safonau'r Gymraeg

Rhif	Math	Safon	Cadarnhaol (gallai fod o fudd)	Negyddol (gallai effeithio)	Dim Effaith
94	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn ei gael ar — (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.			☑

Cynllun Gweithredu

Dylai camau gweithredu ddangos camau i'w cymryd i leihau neu, lle bo modd, ddileu unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

Actions should demonstrate steps to be taken to reduce or where possible, eliminate any negative impact on the Welsh Language.

Gweithred	Pwy	Erbyn Pryd	Mesur Llwyddiant *(sut y byddwn yn gwybod ein bod ni wedi cyflawni'r camau gweithredu)*

Dyddiad y Cwblhawyd yr Asesiad: 13.11.2020